Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Ysgol Dewi Sant

**Ysgol Dewi Sant**
**Heol Rhuddlan**
**Y Rhyl**
**Sir Ddinbych**
**LL18 2RE**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Ysgol Dewi Sant

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ysgol Dewi Sant |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Joy Lee |
| Person â gofal | Joy Lee |
| Nifer y lleoedd | 32 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 39 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00 – 3:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 26 Mai 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 06/02/2024 |
| Ychydig iawn o'r plant sy'n dod o gartrefi Cymraeg. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Fe wnaethom hysbysu'r darparwr am Feysydd i'w Gwella lle nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Ni chyflwynwyd rhybudd, ond nodwyd bod hwn yn faes i'w wella, a rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol fynd i'r afael â hyn. Bydd gwybodaeth am yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei chynnwys mewn Crynodeb Camau Gwella a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn unig.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arsylwadau'n bwydo'r cynllunio er mwyn hyrwyddo datblygiad a chynnydd yn medrau'r plant

A2 Gwella'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol er mwyn datblygu medrau'r plant yn llawn

A3 Mynd i'r afael â'r meysydd diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A4 Sicrhau bod gan yr arweinwyr drosolwg llawn o'u cyfrifoldebau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus o fewn yr amgylchedd dysgu a chwarae ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain yn effeithiol. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dysgu gan ddewis gweithgareddau sy'n eu diddori. Er enghraifft, maent yn mwynhau peintio'n rhydd ac yn chwarae rôl yn y tŷ bach twt yn bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud dewisiadau annibynnol yn ystod amser byrbryd. Maent yn dewis pa bryd yr hoffent ymweld â'r gornel fwyd er mwyn dewis eu ffrwyth a'u iogwrt ac yn egluro os ydynt eisiau menyn ar eu tost.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn cyrraedd yn llawen ac yn mynd ati i chwarae'n syth gyda'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf yn dangos hoffter tuag at eu hymarferwyr ac yn mynd atynt yn hapus a chyfforddus wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn datblygu perthnasoedd agos a chynnes â'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr. Er enghraifft, maent yn mwynhau

trafod eu darluniau o ddinosoriaid ac wrth ddangos y lluniau ohonynt eu hunain ar wal 'Ein Coeden Teulu'.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau a ffurfio perthnasoedd positif â'u cyfoedion. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol wrth sgwrsio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach a rhannu adnoddau wrth chwarae. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r plant yn cydweithio i adeiladu tŵr uchel gan aros yn amyneddgar am eu tro ac annog ei gilydd i lwyddo drwy gydol y weithgaredd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu, er enghraifft wrth lenwi a gwagio cwpanau gan gyfri i dri wrth arllwys y dŵr yn llawn cyffro. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ac yn arbrofi'n hyderus am gyfnodau, er enghraifft wrth osod y trionglau mewn trefn a chwarae yn y twb dŵr a thywod. Mae mwyafrif y plant yn dewis mynd allan i chwarae yn y glaw. Maent wrth eu boddau yn rhedeg a chwythu swigod yn llawn cyffro. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn dangos balchder yn eu gwaith celf wrth iddo gael ei arddangos ar y muriau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Maent yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y lleoliad gan wybod beth sy'n dod nesaf. Mae'r rhan fwyaf yn gallu diwallu eu hanghenion personol drwy fynd i'r tŷ bach a golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus wrth ddewis a pharatoi eu byrbryd a'u diod gydag anogaeth ac yn tacluso'n briodol ar ôl gorffen. Maent yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth chwarae ac yn ymfalchïo pan fyddant wedi cyflawni gweithgaredd yn annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron bob un plentyn yn newydd i'r Gymraeg wrth gyrraedd y lleoliad ond mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol cadarn, ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hyfryd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol wrth chwarae yn yr ardaloedd amrywiol, er enghraifft wrth fwydo doli yn y tŷ bach twt ac adeiladu roced yn y byd bach. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau wrth ymateb i gerddoriaeth yn hyderus. Maent yn ailadrodd rhigymau a chaneuon syml a dawnsio i sŵn cerddoriaeth gyfarwydd. Mae medrau gwrando y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n bwrpasol. Maent yn gwrando'n ofalus a sensitif ar gyfraniadau ei gilydd yn ystod amser cylch wrth iddynt drafod eu teimladau a'r tywydd. Mae'r rhan fwyaf yn deall cyfarwyddiadau gan ymateb yn addas. Er enghraifft, maent yn ailadrodd patrymau brawddeg yr ymarferydd wrth drafod y tywydd gan gadarnhau ei bod yn "wyntog iawn ac yn bwrw glaw".

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau gwrando ar storïau a ddarllenir iddynt gan yr ymarferwyr yn y lloches lles glud. Maent yn barod i drafod cynnwys y llyfr gydag oedolyn gan ymateb i gwestiynau'n effeithiol. Er enghraifft, maent wrth eu boddau'n chwilio am yr anifeiliaid sy'n cuddio yn y llyfr gan eu disgrifio mewn iaith syml. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dewis offer addas i

liwio'r ddraig a chreu cerdyn Santes Dwynwen. Maent hefyd yn mwynhau gwneud marciau'n bwrpasol gydag offer gwahanol fel sialc, paent a phensiliau wrth chwarae yn yr ardaloedd amrywiol.

Mae'r mwyafrif o blant yn datblygu medrau rhifedd priodol ac yn defnyddio iaith fathemategol syml mewn cyd-destunau addas. Er enghraifft, maent yn cyfri 5 trychfil a chyfri i 10 efo blociau yn y byd bach. Maent yn datrys problemau'n gywir wrth greu roced hir a chyfateb matiau i'r rhifau cywir a'u gosod mewn trefn gyda chymorth oedolyn. Mae llawer o blant yn adnabod patrymau amrywiol yn effeithiol wrth baru sanau'n gywir a chyfateb siapiau 2D.

Mae llawer o blant yn ymgyfarwyddo â defnyddio offer digidol yn hyderus wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r popty ping yn y tŷ bach twt a'r allweddell yn y gornel gerddoriaeth. Drwy ddefnyddio'r teclynnau digidol yn naturiol fel hyn, mae'r plant yn mynegi eu creadigrwydd yn effeithiol. Mae lleiafrif o blant yn mwynhau gwneud marciau ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol gan ddefnyddio 'pen' digidol a chwarae gemau ar gyfrifiadur llechen yn bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau bod allan yn yr awyr agored yn rhedeg a chwythu swigod. Mae medrau modur mân y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda, er enghraifft wrth osod y siapiau yn y tyllau, torri toes gyda chyllell a gwisgo sanau yn yr ardal chwarae rôl. Er hyn, nid yw medrau corfforol y plant wedi eu datblygu'n llawn.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn gwneud dewisiadau doeth am beth i'w ddefnyddio i greu eu gwaith, fel dewis lliw paent neu offer marcio yn yr ardal greadigol. Mae'r mwyafrif o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth chwarae rôl, er enghraifft wrth greu'r gofod gyda blociau lliw yn y byd bach. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu hunain yn greadigol trwy gerddoriaeth gan chwarae offerynnau'n frwdfrydig a chreu amrywiaeth o symudiadau i ymateb i wahanol hwiangerddi.

### Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn diogelu pob plentyn yn effeithiol ac yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn bwrpasol. Mae'r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac maent yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg manwl ac yn dilyn gweithdrefnau trylwyr o oruchwylio plant yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn iach a diogel. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol. Maent yn deall yr angen i gadw cofnodion a dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau diogelwch y plant, er enghraifft wrth weinyddu meddyginiaeth a chofnodi damweiniau. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach trwy ddarparu byrbryd iachus a maethlon a chynnig dŵr neu lefrith i'r plant. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae'r gweithdrefnau'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwisgo menig a ffedogau wrth baratoi bwydydd iach a maethlon. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd wrth ddilyn polisi newid cewynnau priodol ac yn cadw cofnodion cywir. Mae gan y lleoliad

weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog plant i sychu trwyn a golchi dwylo yn rheolaidd.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl â'r plant ac maent yn darparu arweiniad gofalgar a chynhaliol. Mae'r ymarferwyr yn trin y plant gyda gofal a pharch ac yn annog ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn annog y plant i aros a chymryd tro wrth ddefnyddio'r offer yn y tŷ bach twt ac wrth greu trac trên yn y byd bach. Mae'r ymarferwyr yn gyson a theg wrth reoli ymddygiad. Er enghraifft, maent yn denu plant at weithgaredd arall os ydynt yn mynd yn rhwystredig neu'n ofidus. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol ac yn arsylwi, gwrando ac egluro mewn modd cynhaliol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn esbonio pwysigrwydd cadw llawr yr ardal dywod yn lân ac yn rhydd rhag tywod er mwyn bod yn ddiogel gan annog y plant i frwsio a thacluso'n annibynnol.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn adnabod anghenion y plant yn fuan ac yn creu cynlluniau addas i'w cefnogi er mwyn ymateb i'w hanghenion. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio iaith arwyddo er mwyn datblygu medrau cyfathrebu plant ag anghenion ieithyddol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos a llwyddiannus gydag ystod o asiantaethau er lles y plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb y plant o fewn amgylchedd dysgu amrywiol a diddorol. Mae'r ardaloedd yn gyfoethog o ran adnoddau ac yn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol, er enghraifft wrth ddewis cynwysyddion pwrpasol i arbrofi yn y tywod glas ac archwilio gyda magnetau yn y gornel ymchwilio.

Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio cwricwlwm buddiol a chyffrous ac mae'r gweithdrefnau newydd i gynllunio i ddilyn diddordebau ac awgrymiadau'r plant yn datblygu'n briodol. Yn yr arfer orau, mae'r ymarferwyr yn cynnal trafodaethau adeiladol â'r plant ar sut i ddatblygu eu medrau ymhellach wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn trafod goleuni wrth i'r plant geisio glanio ar y golau sy'n adlewyrchu o'r fflach lamp. Er hyn, nid yw'r ymarferwyr bob tro'n herio'r plant yn ddigonol er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn ddigon effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn cynnal arsylwadau ar adegau gan ganolbwyntio ar gynnydd plant. Er hyn, nid ydynt yn defnyddio'r arsylwadau o ddatblygiad plant yn ddigon pwrpasol i lywio'r camau nesaf yn eu dysgu a'u chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn glir gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cystrawennol pwrpasol wrth sgwrsio'n naturiol gyda'r plant. Er enghraifft, maent yn holi ac yn bwydo geirfa'n effeithiol wrth i'r plant dorri'r toes gyda chyllell a'i rolio gyda rholbren.

Mae'r profiadau a'r amgylchedd ddysgu tu mewn yn annog creadigrwydd y plant yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt deithio i'r gofod yn y byd bach a dewis offerynnau addas i'w taro wrth ganu a dawnsio. Fodd bynnag, er bod ganddynt gynlluniau ar y

gweill, hyd yma nid ydynt yn cynllunio’n ddigon bwriadus i ddatblygu medrau’r plant yn yr ardal allanol.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru yn effeithiol, er enghraifft wrth ddathlu hanes Santes Dwynwen a chreu draig goch i’w harddangos ar furiau’r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn dda. Maent yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol drwy ddysgu am wyliau megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae’r ymarferwyr yn cefnogi’r plant yn fedrus i fod yn garedig â’i gilydd. Enghraifft nodedig o hyn yw’r modd y maent yn annog y plant i gadw at reol yr wythnos a meddwl am eraill.

Mae’r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth werthfawr gyda’r rhieni yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod gan rieni wybodaeth gyfredol am brofiadau dysgu’r plant tra byddant yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd:  Digonol**

Yn gyffredinol, mae’r arweinydd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Nid oes modd i ymwelwyr gael mynediad i unrhyw ran o’r lleoliad oni bai fod yr arweinydd neu’r ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt. Rhaid i ymwelwyr fewngofnodi’n brydlon ac mae cofnodion addas yn cael eu cadw ar y safle. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn ymwybodol o faterion diogelwch a’r gofynion sydd arnynt i gynnal driliau tân rheolaidd. Maent yn sicrhau bod asesiadau risg pwrpasol ar waith sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw’r dystysgrif drydanol wedi ei diweddaru o fewn yr amser priodol.

Mae’r arweinydd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a chyfeillgar. Mae’r ardaloedd chwarae yn braf a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae’r arweinydd yn sicrhau bod plant yn cael teimlad o berthyn drwy arddangos esiamplau o’u gwaith ar y waliau a thrwy gynnwys pawb ar y goeden deulu. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn trefnu'r ystafell yn bwrpasol i ddarparu ardaloedd chwarae a dysgu symbylus i’r plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio a gwneud defnydd effeithiol o’r ardal allanol. Mae’r arweinydd wedi adnabod hyn ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu’r amgylchedd tu allan a’r defnydd a wneir ohono i gyfoethogi profiadau’r plant.

Mae’r arweinydd yn trefnu prosesau glanhau rheolaidd ac mae’r arferion rheoli heintiau priodol yn lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Mae toiledau a chyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ynghyd ag ardal i newid cewynnau mewn modd urddasol. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn cadw’r gegin a’r cyfarpar i gyd yn lân, ac mae hyn yn sicrhau bod byrbrydau yn cael eu paratoi’n gywir.

Mae’r arweinydd yn sicrhau bod y dodrefn, teganau a chyfarpar o dan do o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Maent yn cael eu storio ar lefel isel ac o fewn cyrraedd y plant, sy’n datblygu eu hannibyniaeth yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r paent yn yr ardal celf a chrefft, offer amrywiol y byd bach, a’r blociau yn yr ardal adeiladu oll yn hygyrch i’r plant wrth iddynt chwarae. Mae'r adnoddau yn amrywiol ac yn ysgogi diddordebau a dychymyg y plant. Mae’r deunyddiau naturiol fel cerrig, brigau a chregyn a’r darnau rhydd yn annog y plant i ymchwilio’n greadigol yn yr ardal ymchwiliol. Mae’r adnoddau hefyd yn hybu ymwybyddiaeth y plant o

amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal. Er enghraifft mae doliau a llyfrau darllen o wahanol ddiwylliannau ar gael yn yr ardal chwarae rôl a'r gornel dawel.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae datganiad o ddiben a gweledigaeth addas yr arweinydd yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn darparu gweithgareddau amrywiol mewn awyrgylch hapus a chartrefol sy'n hybu dysgu'r plant yn briodol. Mae lles ymarferwyr a phlant wrth wraidd holl waith y lleoliad, ac mae hyn yn creu ethos cadarnhaol a gofalgar lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r arweinydd yn hunanwerthuso'r ddarpariaeth yn briodol ac yn creu cynlluniau gwella addas. Mae'n adnabod llawer o feysydd i'w gwella yn gywir, er enghraifft yr angen i ddatblygu'r ardal allanol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae'r arweinydd yn mynd i'r afael â rhai meysydd i'w gwella yn bwrpasol. Er enghraifft, maent wedi sefydlu system newydd amser byrbryd sy'n caniatáu i'r plant ddewis eu byrbryd a phryd yr hoffent ei fwyta. Drwy wneud hyn, mae'r plant yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus, annibynnol ac maent yn barod i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r ymarferwyr yn awyddus i wella'u harferion er lles y plant, ac maent yn gwrando'n ofalus ar awgrymiadau'r arweinydd a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae trefniadau cymwys ar waith i werthuso perfformiad yr ymarferwyr yn flynyddol, ac mae'r arweinydd yn goruchwylio a gwerthuso gwaith yr ymarferwyr yn anffurfiol. Er hyn, nid oes gan yr arweinydd drefniadau digon pwrpasol er mwyn goruchwylio a monitro'r ymarferwyr yn rheolaidd. Nid yw'r arweinydd sydd hefyd yn unigolyn cyfrifol yn sicrhau ei bod bob amser yn cynnal gwiriadau addasrwydd yr ymarferwyr, sydd hefyd yn gweithio yn yr ysgol, cyn iddynt ddechrau gweithio yn y clwb ar ôl ysgol. O ganlyniad, nid yw'r arferion recriwtio diogel yn cael eu gweithredu'n gywir ac nid yw'r ffeiliau staff yn bodloni'r rheoliadau.

Mae'r arweinydd yn dyrannu adnoddau'n effeithlon ac yn defnyddio'r gyllideb a grantiau yn briodol. Er enghraifft, mae'n cyllido adnoddau amrywiol yn ddoeth i gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig fel prynu popty newydd i sicrhau eu bod yn cael byrbrydau amrywiol maethlon. Mae'r arweinydd yn annog yr ymarferwyr i fynychu hyfforddiant pwrpasol i wella'u gwybodaeth o'r cwricwlwm a'u harferion gofal. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn gydwybodol ac yn awyddus i lwyddo. Er enghraifft mae'r hyfforddiant Makaton yn galluogi ymarferwyr i gefnogi a datblygu medrau cyfathrebu'r plant yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda swyddogion yr awdurdod lleol a mudiadau eraill i wella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau i blant. Mae gan y lleoliad bartneriaeth gynhyrchiol â'r ysgol gynradd leol y mae wedi ei leoli ynddi i gefnogi'r broses bontio. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gwahodd plant y cylch i wasanaethau a chyflwyniadau arbennig yn achlysurol. Mae hyn yn gymorth i'r plant pan ddaw'r amser iddynt drosglwyddo i'r ysgol gynradd. Mae gan y lleoliad berthynas gadarn â rhieni a gofalwyr. Mae'r arweinydd ac ymarferwyr yn cyfathrebu'n gyson â nhw er mwyn gwella lles a dysgu'r plant o ddydd i ddydd. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio 'ap'

digidol i adrodd ar ddatblygiad y plant drwy luniau a chapsiynau ac i hysbysu rhieni a gofalwyr o negeseuon pwysig yn rheolaidd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 28 | The Responsible Individual must ensure all staff employed at the setting have complete staff files that include a photographic identity statement, health declaration, two references and relevant qualifications. The Responsible Individual must always carry out suitability checks on staff prior to them starting at the setting. | Heb ei Chyflawni |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 11 Ebrill 2024